# Abladiad microdon ar gyfer trin metastasisau'r iau/afu

Ebrill 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae abladiad microdon ar gyfer trin metastasisau'r iau/afu yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG.

Mae NICE yn annog rhagor o ymchwil ar abladiad microdon ar gyfer trin metastasisau'r iau/afu, i weithio allan pwy fydd yn cael y budd mwyaf o'r driniaeth hon.

## *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio. Efallai y bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

## Eich tîm gofal iechyd

Dylai tîm gofal iechyd sy'n brofiadol ym maes rheoli canser yr iau/afu benderfynu pa gleifion y dylid cynnig y driniaeth hon iddynt.

## Y cyflwr

Canser sy'n dechrau mewn un rhan o'r corff (er enghraifft yn y coluddyn, yr ysgyfaint neu'r llygad) ac sy'n lledaenu i'r iau yw canser metastatig yr afu/iau. Mae'r driniaeth yn dibynnu ar y math o ganser, lle mae'r canser ac i ble mae wedi lledaenu, yn ogystal â pha mor dda y mae'r afu/iau yn gweithio. Gall triniaethau gynnwys llawdriniaeth i dynnu rhannau canseraidd o'r afu/iau, defnyddio gwres i ladd y canser, triniaethau sy'n rhwystro cyflenwad gwaed y canser, cemotherapi neu radiotherapi.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio abladiad microdon fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Nod abladiad microdon yw dinistrio'r celloedd canser gan ddefnyddio gwres, a gwneud cyn lleied o niwed â phosibl i'r feinwe normal gerllaw. Caiff y driniaeth ei chynnal drwy ddefnyddio anesthetig lleol neu anesthetig cyffredinol. Caiff ei chynnal drwy doriad bach yn y croen neu drwy lawdriniaeth agored. Rhoddir stiliwr i mewn i'r tiwmor, gan ddefnyddio delweddau i'w lywio, a throsglwyddir ynni microdon drwy'r stiliwr er mwyn gwresogi a dinistrio'r celloedd canser. Gellir ailadrodd hyn os oes mwy nag un tiwmor neu ar gyfer tiwmorau mawr.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd bod digon o dystiolaeth i wybod pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Roedd y 12 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 4,003 o gleifion.

Yn gyffredinol, roeddent yn dangos bod abladiad microdon cystal â thechneg arall (abladiad radioamledd) a ddefnyddir yn gyffredin i ddinistrio tiwmor. Yn y ddwy dechneg, efallai na chaiff y tiwmor ei ddinistrio’n llwyr neu gall ddychwelyd.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau canlynol yn gysylltiedig â'r driniaeth:

- gwaedu yn yr abdomen neu'r iau/afu, gydag un claf yn gorfod cael trallwysiad gwaed
- crawniad yn y gofod a adawyd ar ôl dinistrio'r tiwmor, y mae angen ei drin trwy ei ddraenio trwy diwb a gwrthfiotigau
- ffistwla (sianel agored rhwng yr iau/afu ac wyneb y croen), y mae angen ei drin gyda gwrthfiotigau
- clot gwaed mewn gwythïen i'r iau/afu, yn rhwystro'r cyflenwad gwaed ac achosi niwed i'r iau/afu
- aer yng ngheudod y frest (niwmothoracs), sy'n golygu bod angen mewnosod tiwb yn y frest i dynnu'r aer
- llosgiadau'r croen
- gwaed yng ngheudod y frest (hemothoracs) y mae angen ei ddraenio trwy diwb.

Hefyd, hysbyswyd NICE am y risg bosibl o niwed i'r diaffram (cyhyr yn y frest sy'n helpu gydag anadlu) yn ystod y driniaeth.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1893-5